Llantwit Major School
Ysgol Llanilltud Fawr

# MANYLEB PERSON
# PENNAETH

| | MEINI PRAWF | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|---|
| **1.** | **CYMWYSTERAU** | Cymwys hyd at lefel gradd.<br>Statws Athro Cymwys.<br><br>Cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg.<br><br>CPCP (yn amodol ar Reoliadau Cymhwyso a Chofrestru Penaethiaid (Cymru) 2005). | Gradd uwch neu gymhwyster perthnasol cyfwerth. |
| **2.** | **GWYBODAETH A PHROFIAD** | Profiad diweddar sylweddol a hanes profedig fel<br>Uwch arweinydd Ysgol Uwchradd llwyddiannus, yn rheoli staff ac adnoddau yn rhagweithiol i ysbrydoli ac ysgogi.<br><br>Cofnod parhaus o wella ysgolion gyda phrofiad amlwg o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad er mwyn codi cyflawniad i ddisgyblion ar draws ystod o oedrannau a galluoedd.<br><br>Tystiolaeth o lwyddo mewn amrywiaeth o rolau strategol gan gynnwys rheoli data, hunan werthuso a gwella ysgol.<br><br>Cymhwyso strategaethau a gweithdrefnau effeithiol yn ymarferol sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus, modelu rôl drwy fod yn berchen ar ddatblygiad ei hun yn rhagweithiol ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eraill.<br><br>Rheoli perfformiad cryf a chadarn, gosod nodau ac adolygu cerrig milltir a lliniaru risgiau yn rheolaidd. | Profiad o reoli iechyd a diogelwch.<br><br>Profiad o reolaeth ariannol mewn ysgol uwchradd.<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth o fentrau a chyd-destun Addysgol Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Profiad o reoli a gweithredu newid sylweddol, gan arwain o'r blaenau trwy rannu gweledigaeth strategol y mae cydweithwyr yn ei mabwysiadu.<br><br>Defnyddio'n ymarferol arfer a gweithdrefnau gorau cyfredol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc.<br><br>Gwybodaeth gyfredol a defnydd ymarferol o addysgu a dysgu rhagorol a sut mae gweithredu hynny. Cyflawni drwy eraill drwy rymuso timau ac unigolion.<br><br>Profiad o gysylltu'n effeithiol â llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach. | |
| **3.** | **SGILIAU ALLWEDDOL** | Gallu datblygu, cyfleu a chyfathrebu gweledigaeth hirdymor glir o ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar gyfer yr ysgol.<br><br>Gallu rheoli strategol profedig gan gynnwys rheoli adnoddau ariannol a materol er mwyn cyflawni'r Cynllun Gwella Ysgolion.<br><br>Gallu arwain, rheoli ac ysgogi staff a disgyblion i gyflawni safonau uchel.<br><br>Profiad llwyddiannus o ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Gallu cyfathrebu a datblygu cysylltiadau'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid.<br><br>Lefel uchel o sgiliau personol wrth ddefnyddio a gweithredu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).<br><br>Galluoedd trefnu da a'r gallu i ddirprwyo. | Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4.** | **DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS** | Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn hyfforddiant a gweithgareddau datblygu yn gysylltiedig â rheoli ysgol.<br><br>Profiad o arwain HMS ar gyfer eraill.<br><br>Gweithio ag ysgolion a sefydliadau eraill | |
| **5.** | **NODWEDDION PERSONOL** | Y gallu i fod yn wydn dan bwysau ac i fod yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig.<br><br>Dealltwriaeth gadarn o'r cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol y mae ysgolion yn gweithredu ynddo.<br><br>Gallu dangos barn gadarn a chytbwys, a bod yn benderfynol ac yn hyblyg.<br><br>Gonestrwydd, teyrngarwch a sensitifrwydd. | |
| **6.** | **GOFYNION ERAILL** | Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) a chynhelir proses sgrinio gynhwysfawr ar gyfer pob ymgeisydd. Bydd hyn yn cynnwys gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. (GDG).<br><br>Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo polisi cyfleoedd cyfartal yr Awdurdod Lleol yn gadarnhaol. | |